No.

**CABINET**

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 23 Mai, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd B.E. Brooks (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, G. John, S.D. Perkes, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd Dr. I.J. Johnson.

**C1 CYHOEDDIAD -**

Dechreuodd y Dirprwy Arweinydd drwy roi gwybod am rai materion cadw tŷ a dywedodd fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ei recordio ac y byddai'n cael ei lanlwytho i wefan Cyngor Bro Morgannwg cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

**C2 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –**

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd L. Burnett.

**C3 COFNODION –**

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2024 fel cofnod cywir.

**C4 DATGANIADAU BUDDIANT –**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**C5 DIWEDDARIAD CHWARTER 3 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2024.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r sylwadau cysylltiedig, a dywedodd y bu trafodaeth dda yn y cyfarfod ynghylch System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SWGCC) a dileu'r risgiau Brexit a Covid o'r Gofrestr.

Roedd y Cynghorydd Williams yn falch o fod wedi bod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a dywedodd ei fod wedi cydnabod bod pryder ymhlith sawl Cyngor ynghylch SWGCC ond roedd angen defnyddio arbenigedd caffael i ddysgu a gwella.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y drafodaeth a'r sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2024 yn cael eu nodi.

(2) BOD y risg o ran rheoleiddio caffael yn cael ei hystyried i'w chynnwys ar y Gofrestr neu o leiaf ychwanegu diweddariad ar yr adolygiad pan fo hynny'n briodol.

Y rheswm dros y penderfyniadau

(1-2) Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C6 STRATEGAETH ARFAETHEDIG CYMDEITHASOL, EMOSIYNOL, IECHYD MEDDWL A LLES 2024-2026 (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2024.

Diolchodd y Cynghorydd Birch i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r sylwadau cysylltiedig. Wrth gyfeirio at gyflwyniad y Swyddog o'r cyfeiriad, dywedodd ei fod wedi cael sêl bendith gyffredinol gan y Pwyllgor, gyda chwestiynau'n cael eu gofyn ynghylch cwnsela, cydweithio ar draws Awdurdodau Lleol a'r Awdurdod Iechyd, ac archwiliadau ysgolion o ddisgyblion a staff i benderfynu a fyddai'r Strategaeth yn bodloni eu hanghenion. I gloi, teimlwyd y byddai'r Strategaeth yn bodloni anghenion plant a phobl ifanc, y staff a'r staff ategol a oedd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD y drafodaeth a'r sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2024 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C7 GWASANAETHAU BWS LLEOL YM MRO MORGANNWG (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2024.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r sylwadau cysylltiedig, a dywedodd fod y mater wedi bod yn Gais i'w Ystyried gan y Cynghorwyr E. Goodjohn ac S. Campbell a'i bod wedi mynd i'r cyfarfod fel yr Aelod Cabinet perthnasol, a bod trafodaeth dda wedi digwydd.

Cafwyd diwygiadau a newidiadau i amserlenni a oedd wedi achosi rhai problemau ac roedd y Swyddogion yn trafod yn gyson â chwmnïau bysus i fynd i'r afael â phroblemau wrth iddynt ddigwydd.  Roedd aelod o'r cyhoedd wedi mynegi pryderon ynglŷn â darpariaeth fysus ar Fonmon Road, a oedd yn broblem amserlen a oedd yn cael ei hadolygu.

Cafodd yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau ac roedd cyfraniad gan Reolwr Gweithredol y Gwasanaethau Trafnidiaeth.

Nid oedd gwasanaethau bysus yn berffaith ar hyn o bryd, ond roedd problemau'n cael sylw ac roedd gwaith pellach i'w wneud ar draws y rhanbarth.  Roedd disgwyl eiddgar am y papur newydd gan Lywodraeth Cymru ynghylch masnachfreinio gwasanaethau bysus yn y dyfodol.  Roedd Cyfnewidfa Dociau'r Barri yn cael ei defnyddio'n fwy'n araf ond roedd wedi cymryd amser i'w rhoi ar waith drwy'r broses gynllunio a Covid.  Roedd problemau o hyd gyda nifer y defnyddwyr bysus ar ôl Covid i'w datrys hefyd.

O ran gwasanaeth bws G1 Greenlinks, roedd mwy o wirfoddolwyr yn cael eu ceisio i sicrhau bod y gwasanaeth ar gael yn ehangach i bobl, yn enwedig yng nghefn gwlad y Fro.

O ran awgrym y Pwyllgor i gynnal ymgyrch farchnata yn ystod yr haf, ar thema 'dal y bws', dywedodd y Dirprwy Arweinydd y byddai marchnata ar raglen digwyddiadau'r haf a fyddai'n hyrwyddo'r defnydd o wasanaethau teithio cyhoeddus.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y drafodaeth a'r sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2024 yn cael eu nodi.

(2) BOD awgrym y Pwyllgor Craffu i ystyried ymhellach ffyrdd o gysylltu cartrefi ac ysbytai, y mater o safleoedd bysus coll a chyfnewidfeydd / cysylltiadau bysus ar gyfer Croes Cwrlwys a Sycamore Cross yn cael eu cymeradwyo.

<u>Y rheswm dros y penderfyniadau</u>

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

## C8 ADOLYGIAD O GYNLLUNIAU TRWYDDED PARCIO PRESWYL 2021 Y CYNGOR (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a’r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2024.

Diolchodd y Cynghorydd Wilson i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r sylwadau cysylltiedig. Cafwyd trafodaeth ynghylch gorfodi parcio yr hoffai'r Awdurdod wneud mwy ohono ond roedd problemau adnoddau ar hyn o bryd. Roedd yn bwysig ymgysylltu'n llawn â thrigolion yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt i wneud y cynllun mor hunan-orfodol â phosibl. Byddai'r Aelod Cabinet yn siarad â’r Swyddogion i weithio tuag at gyflwyno adroddiad yng nghyfarfod y Cabinet yn y dyfodol er mwyn ystyried newidiadau posibl. Cafwyd trafodaeth dda hefyd ynghylch Ogwr, ardal Lakeside a White House.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD y drafodaeth a’r sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a’r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2024 yn cael eu nodi.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

## C9 ASESIAD O'R FARCHNAD DAI LEOL (AFDL) 2023 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel a gynhaliwyd ar 15 Mai 2024.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r sylwadau cysylltiedig.

Dywedodd y Cynghorydd Perkes fod yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn ddogfen bwysig a fyddai'n helpu'r Cyngor i gynllunio a gweithio tuag at adeiladu'r cartrefi fforddiadwy a oedd eu hangen ym Mro Morgannwg.

Argymhellion y Pwyllgor oedd:

(1) BOD, ar ôl ystyried Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) 2023 sydd ynghlwm yn Atodiad A, y sylw canlynol yn cael ei gyfeirio at y Cabinet fel rhan o'i ystyriaeth o’r AFDL:

- Roedd y Pwyllgor yn dymuno tynnu sylw at bwysigrwydd y Cyngor yn ystyried darparu tai addas i bobl hŷn (gan gynnwys tai ymddeol a thai â gofal, fel y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad ar yr AFDL) er mwyn mynd i'r afael â'r newid cynyddol i boblogaeth sy'n heneiddio ym Mro Morgannwg a thrwy hynny 'diogelu at y dyfodol' dai y Sir ac anghenion cysylltiedig i'w thrigolion. Roedd yn bwysig bod ystyriaethau o'r fath yn cael eu

hymgorffori'n llawn o fewn polisïau, strategaethau a chynllunio'r Cyngor (h.y. Cynllun Datblygu Lleol Newydd Cyngor Bro Morgannwg).

(2) BOD y Pwyllgor yn nodi y gofynnid i'r Cabinet ganiatáu i Bennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau wneud mân newidiadau golygyddol i'r ddogfen ar ôl ei chymeradwyo.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD y drafodaeth a'r sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel a gynhaliwyd ar 15 Mai 2024 yn cael eu nodi a bod yr Argymhellion yn cael eu cymeradwyo.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C10 PWYLLGOR YMGYNGHOROL BAE CAERDYDD –**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynghori Bae Caerdydd a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2024.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson y bu trafodaeth dda yn y cyfarfod ynghylch ymgyrch garthu, rhaglen addysg Awdurdod Harbwr Caerdydd mewn ysgolion i drafod llygredd a gweithgareddau casglu sbwriel, cynnal a chadw lociau a'r llwybr pysgod, y dŵr o ansawdd da yn yr ardal a thystiolaeth o silio a rheoli mân ddigwyddiadau llygredd.

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynghori Bae Caerdydd a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2024 yn cael eu nodi.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wrth nodi'r cofnodion.

**C11 CYDBWYLLGOR GWASANAETHAU RHEOLEIDDIO A RENNIR –**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024.

Dywedodd y Cynghorydd Sivagnanam fod y cyfarfod wedi ystyried trosolwg a diweddariad o ran gwaith sy'n ymwneud â Chynlluniau Busnes y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR). Roedd heriau ariannol yn ymwneud â'r Gwasanaeth ac roedd arolwg staff wedi'i gyhoeddi i ddeall pryderon staff yn well. Cafwyd trafodaeth hefyd ynglŷn â'r cynllun Prentisiaethau newydd a oedd yn ceisio denu pobl ifanc i yrfaoedd yn y GRhR.

PENDERFYNWYD - BOD cofnodion cyfarfod y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r cofnodion.

**C12 DEFNYDDIO PWERAU ARGYFWNG Y PRIF WEITHREDWR (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a oedd â'r diben o hysbysu'r Cabinet ynghylch ymarfer Pwerau Brys gan y Prif Weithredwr ers yr adroddiad diwethaf ar 11 Ebrill 2024.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD - BOD y defnydd o Bwerau Brys y Prif Weithredwr yn cael ei nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Rhoi gwybod i'r Cabinet.

**C13 DIWEDDARIAD 2024 I GYNLLUN CYFLAWNI'R GRANT CYMORTH TAI 2022-2025 (DSCCT) (CRAFFU - CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad a oedd â'r diben o ofyn i'r Cabinet gymeradwyo Diweddariad 2024 i Gynllun Cyflawni a Chynllun Gwariant y Grant Cymorth Tai (GCT) ar gyfer 24/25.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod tîm comisiynu a oedd yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau cymorth o safon uchel i drigolion, yn helpu i gynnal tenantiaethau ac yn delio â materion digartrefedd. Roedd rhai o'r gwasanaethau wedi'u comisiynu gan Llamau a oedd yn rhoi cymorth i bobl ifanc ddigartref mewn lleoliadau preswyl, Pobl a oedd yn darparu'r Siop Un Stop ar Heol Holltwn yn y Barri ac yn cynnig cyngor a chymorth ynghylch materion tai a Platfform a oedd yn gweithio gyda phobl a oedd yn profi heriau iechyd meddwl. Fel Aelod Cabinet, roedd y Cynghorydd Perkes wedi gallu ymweld â'r tri darparwr ac yn ei barn hi roedd y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu heb eu hail.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ei fod yn adroddiad pwysig a oedd yn dangos y cymorth a roddwyd ynglŷn â thai i'r bobl fwyaf agored i niwed ym Mro Morgannwg.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD diweddariad 2024 i Gynllun Cyflawni’r GCT ar gyfer 2022-2025 yn cael ei gymeradwyo.

(2) BOD Cynllun Gwariant y GCT ar gyfer 2024-25 yn cael ei gymeradwyo.

(3) BOD y defnydd o'r weithdrefn penderfyniadau brys fel y nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei gymeradwyo er mwyn cyfeirio Cynllun Cyflawni terfynol y GCT ar gyfer 2022-2025 at Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mai 2024 yn unol ag amodau'r GCT.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Canllawiau GCT (Cymru) Ebrill 2021.

(2) Sicrhau bod Cynllun Gwariant y GCT ar gyfer 2024-2025 yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau sef 31 Mai 2024 yn unol ag amodau’r GCT.

(3) Caniatáu i Gynllun Cyflawni terfynol y GCT ar gyfer 2022-2025 yn cael ei gyfeirio at Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau gofynnol.

**C14 DIWEDDARIAD I GANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL TAI FFORDDIADWY (YGCGR) (CRAFFU – AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad a oedd â’r diben o geisio cymeradwyaeth y Cabinet i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ddiwygiadau i'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) Tai Fforddiadwy mabwysiedig.

Diben yr adroddiad oedd nodi dull y Cyngor o ddarparu tai fforddiadwy drwy'r system gynllunio. Nododd ofynion a mecanweithiau cynllunio'r Cyngor ar gyfer sicrhau a darparu tai fforddiadwy ym Mro Morgannwg ac fe'i cynhyrchwyd i gefnogi polisïau Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Bro Morgannwg a oedd yn mynd i'r afael â'r anghenion tai fforddiadwy ym Mro Morgannwg fel y gwelwyd yn asesiad diweddaraf y Cyngor o’r farchnad tai lleol.

Cafodd y CCA ei baratoi fel tystiolaeth gefndirol i’r Archwiliad Cyhoeddus o CDLl Bro Morgannwg. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cymeradwywyd y CCA wedi’i ddiwygio gan y Cabinet yn 2017 i’w ddefnyddio fel ystyriaeth berthnasol wrth ddod i benderfyniad ynghylch ceisiadau cynllunio ac apeliadau ym Mro Morgannwg.

Roedd y newid mwyaf arwyddocaol i'r CCA yn ymwneud â gwerthoedd trosglwyddo, y gwerth gostyngedig y byddai landlord cymdeithasol yn talu datblygwr am unedau yr oedd gofyn iddo eu hadeiladu fel rhan o gytundebau A106. Nid oedd y gwerthoedd hynny wedi'u diweddaru ers 2021 ac roedd costau adeiladu wedi codi ers hynny.

Roedd newidiadau pellach i'r CCA er eglurder ac roedd hynny'n adlewyrchu newidiadau mewn Polisi Cynllunio.

Roedd y Dirprwy Arweinydd yn edrych ymlaen at glywed canlyniad yr ymgynghoriad mewn adroddiad Cabinet yn y dyfodol.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y diwygiadau arfaethedig i'r CCA Tai Fforddiadwy a atodwyd i'r adroddiad yn cael eu cymeradwyo at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus.

(2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Bennaeth Datblygu Cynaliadwy i wneud newidiadau teipograffig neu fân newidiadau eraill yn ôl yr angen, cyn ymgynghoriad cyhoeddus.

(3) BOD adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus i adrodd canfyddiadau'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus ac unrhyw newidiadau i'r CCA cyn mabwysiadu'r CCA yn ffurfiol.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Galluogi ymgynghoriad cyhoeddus ar y diwygiadau arfaethedig i'r CCA yn unol â phrotocol y Cyngor ar gyfer paratoi CCA.

(2) Gwneud newidiadau teipograffig neu fân newidiadau yn ôl yr angen heb fod angen ceisio cymeradwyaeth y Cabinet.

(3) Rhoi gwybod i'r Aelodau am yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus a gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau ar gyfer mabwysiadu'r CCA yn ffurfiol fel ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau cynllunio.